Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Gwalchmai

**Ysgol Y Ffridd**
**Gwalchmai**
**LL65 4SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Gwalchmai

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Gwalchmai |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Janet Evans ac Anne Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Janet Evans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 3-11oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun-Gwener 9:00yb-5:30yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23/01/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/05/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio gyda’r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r PC roi sylw iddynt.

Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi’i chynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahân i’r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau ac asesiadau wrth gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu a’r chwarae

A2 Mynd i’r afael â’r materion diffyg cydymffurfiaeth

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un o’r plant yn teimlo'n hollol gartrefol yn y cylch. Maent wrth eu boddau’n mynychu ac yn cyrraedd yn hollol hapus. Mae ganddynt ymdeimlad cryf ac amlwg o berthyn ac maent yn ffurfio cydberthnasau cryf. Maent yn gyfarwydd iawn â threfniadau arferol y cylch ac yn cydymffurfio’n aeddfed. Er enghraifft, wrth gyrraedd, mae’r plant yn mynd ati’n hyderus i ymuno yn nhrefn gofrestru’r bore. Mae bron bob un o’r plant yn llwyddo i gyd-chwarae’n hapus.

Mae bron bob un o’r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Maent yn llwyddo i ganolbwyntio’n gydwybodol am gyfnodau estynedig wrth chwarae. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ymroi’n llwyr i weithgareddau grŵp ac yn dyfalbarhau ar dasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn mwynhau darganfod pa gyfarpar sydd fwyaf addas er mwyn creu llun wyneb gan ddefnyddio toes. Maent yn barod iawn i rannu adnoddau ac yn gweithio’n hapus gyda phlant eraill yn yr ardaloedd dysgu.

Mae bron bob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn dda iawn a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol am eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, maent yn

mwynhau dewis chwarae tu allan gan fynd at y gegin fwd i greu byrger neu wneud paned o goffi.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi ag offer a deunyddiau gwahanol. Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd arbennig o dda i ddatblygu annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn mwynhau adeiladu tŵr o flociau gan ddefnyddio ewyn eillio fel sment ac yn llwyddo i'w leoli yn fedrus.

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud dewisiadau addas gan fynegi barn yn hyderus am yr hyn maent yn dymuno ei wneud. Er enghraifft, maent yn penderfynu symud o un ardal i un arall yn annibynnol ac yn gwisgo eu ffedogau eu hunain i beintio ar draws holl ardaloedd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae bron bob un yn ddysgwyr hyderus ac yn deall bod ganddynt hawl i ddefnyddio'u hamser i gymryd rhan mewn nifer o brofiadau dysgu ysgogol.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad brwd o ddiogelwch a pherthyn gan fod ymarferwyr yn dathlu eu cyflawniadau. Er enghraifft, mae ardal benodol i'r plant arddangos eu gwaith er mwyn i bawb gael edrych arno. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a lles y plant.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda. Maent yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb lawer o anogaeth gan yr ymarferwyr, er enghraifft cyn eu byrbryd neu cyn golchi eu dannedd. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd hylendid yn llwyddiannus i gynnal bywydau iach a chyfrifol yn llwyddiannus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n glir fel bod oedolion a phlant eraill yn eu deall. Maent yn datblygu eu geirfa'n llwyddiannus wrth ganu hwiangerddi cyfarwydd Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o plant yn ymateb yn dda i gwestiynau yn ystod sesiynau torfol ac yn llwyddo i fynegi teimladau ac emosiynau yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod amrediad eang o eirfa. Mae medrau llafar Cymraeg y plant yn datblygu'n arbennig o dda er bod y Gymraeg yn ail iaith i lawer ohonynt. Mae bron bob un yn arddangos dealltwriaeth dda wrth ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau'r ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn trafod offer a'r lliw paent mwyaf addas i greu'r blodau yn yr ardal greadigol.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol am beth sydd fwyaf addas i'w wisgo er mwyn gweithio tu allan. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad.

Mae mwyafrif y plant yn llwyddo i wneud marciau cynnar yn effeithiol drwy ddefnyddio cyfryngau amrywiol megis paent, creonau, pensiliau a phinnau ffelt. Yn ogystal, mae'r plant hŷn yn gwneud dewisiadau i wneud marciau yn annibynnol wrth gymryd rhestr bwyd yn y caffi byrgers. Mae hyn yn cael effaith werthfawr ar eu medrau ysgrifennu cynnar.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus mewn gwahanol gyd-destunau cywir. Er enghraifft, maent yn cyfrifo a chyfatebu cwpanau a soseri i wneud paned yn y tŷ bach twt. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth gadarn iawn o rifau ac maent yn cyfri, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn hyderus. Mae ychydig ohonynt yn rhifo a didoli gwrthrychau megis y pompoms lliw hyd at ddeg yn fedrus.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau amser stori torfol. Maent yn cymryd rhan weithredol drwy ddefnyddio arwyddion Makaton i atgyfnerthu'r profiad wrth wrando ar stori Mynd i'r Sŵ. Mae adnoddau darllen amrywiol ar gael mewn ardaloedd y tu mewn ac allan, gydag ychydig o blant yn llwyddo i ddangos diddordeb mewn llyfrau yn annibynnol yn rheolaidd.

Mae bron bob un o'r plant yn mwynhau profiadau corfforol mawr a mân tu mewn a thu allan ac yn llwyddo i ymdrin ag offer yn hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, maent yn adeiladu tŵr a thŷ gyda rhaw a thrywel wrth lwytho 'sment hylif eillio' ar y blociau. Mae'r plant yn mwynhau sesiynau llesiant sy'n eu hannog i ddefnyddio ystumiau corfforol amrywiol, mewn awyrgylch hamddenol a chyfforddus. Mae'r profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i gyd feithrin symud â cherddoriaeth. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad corfforol.

Mae bron bob un o'r plant yn llwyddo i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau creadigol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn adeiladu tŷ taid gyda blociau bach plastig, gan ddefnyddio lliwiau gwahanol ar gyfer gwahanol rannau'r tŷ.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen ddigidol i creu marciau. Mae ychydig o'r plant yn defnyddio adnoddau technolegol megis y cathod digidol, gan arddangos medrau rheoli cadarn.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl craff trwy weithgareddau diddorol. Er enghraifft, maent yn gweithio'n ddeallus gydag eraill i osod bwrdd ar gyfer cinio, gan benderfynu pa lestri a pha fwyd yr hoffent eu defnyddio yn y tŷ bach twt a'r gegin fwd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n barhaus ar gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un ohonynt. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda iawn ac maent yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol a thrylwyr ar ddiogelwch y plant.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol i gefnogi'r plant. Er enghraifft, maent yn mynychu hyfforddiant ac yn derbyn cyngor arbenigol gan weithwyr allweddol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a lles y plant.

Mae’r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd newydd ddechrau mynychu’r lleoliad ac yn eu cefnogi’n sensitif i ddatblygu eu hunanhyder.

Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod byrddau ac arwynebau’n lân a bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy’n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr.

Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi ymddygiad cadarnhaol yn dda iawn ac yn ei weithredu'n hynod effeithiol. Er enghraifft, pan mae plant yn dadlau dros degan, mae ymarferwr yn eu hatgoffa am bwysigrwydd rhannu gan fodelu sut i ddatrys y gwrthdaro. Mae rhyngweithiadau ymarferwyr i bwrpas ac yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith werthfawr ar bob elfen o ddatblygiad y plant.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a’r gweithgareddau. Mae’r ymarferwyr yn ymatebol, yn gwrando ac yn parchu barn y plant yn gyson. Maent yn dathlu cyflawniadau’r plant ar bob cyfle. Mae hyn yn cael effaith werthfawr ar y plant ac yn hybu eu hunanhyder yn llwyddiannus.

Mae’r ymarferwyr yn ymfalchïo yng nghynnydd y plant. Er enghraifft, maent yn cael hwyl wrth annog y plant i ganu a gwneud symudiadau wrth ddewis cân yn y bore. Mae hyn oll yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chynnydd y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a’r plant ac mae hyn yn sail gadarn iawn i’w gwaith. Maent yn ymateb yn dda i anghenion, diddordebau a chefndiroedd amrywiol y plant. Mae hyn yn creu ethos cynhwysol lle caiff rhinweddau unigol bob plentyn eu gwerthfawrogi. Mae’r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn y plant drwy eu hatgoffa am bwysigrwydd ystyried teimladau ei gilydd, modelu arfer dda a chyd-chwarae. Maent yn annog y plant i helpu ei gilydd pan fydd yn amser gwisgo ffedog, rhannu adnoddau a chymryd tro.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau’r plant mewn cyd-destunau sbardunol a hwyliog. Mae hyn yn llwyddo i ennyn diddordeb y plant ym mhob agwedd o’r ddarpariaeth, fel eu bod yn mwynhau dysgu wrth chwarae. Mae’r plant wrth eu boddau’n trafod y rysáit gorau i greu’r  baned berffaith! Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau go iawn fel cwpan a soser, perlysiau, dŵr, a mwd, gan gyd-chwarae’n aeddfed. Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn trafod eu hasesiadau a’u harsylwadau yn anffurfiol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio canfyddiadau’r gwaith hwn er mwyn addasu eu cynlluniau ac ymestyn y gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr wedi sefydlu ardaloedd a gweithgareddau symbylus sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant fwynhau chwarae a dysgu tu mewn a thu allan i'r adeilad. Er enghraifft, allan yn y gwynt, mae llawer o blant yn creu bwyd ar gyfer yr adar bach a chael bwydo a thrafod wŷn bach o'r fferm gyfagos. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i hwyluso'r dysgu drwy gydweithio effeithiol. Maent yn annog datblygiad y plant drwy ychwanegu adnoddau neu awgrymu syniad ymestynnol. Er enghraifft, maent yn awgrymu y gallai plentyn ddefnyddio teiar er mwyn medru creu siâp cylch cywir. Mae'r ymarferwyr yn holi'n drylwyr, gan roi amser i'r plant feddwl drostynt eu hunain. Er hyn, nid yw'r ymarferwyr bob tro'n gofyn cwestiynau penagored i symud y dysgu yn ei flaen.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn annog a chanmol ymdrech y plant sy'n newydd i'r iaith yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cynllunio sesiynau canu hwyliog, ac yn darllen straeon yn rheolaidd. Mae geirfa addas a phriodol yn cael ei modelu a'i hatgyfnerthu o fewn tasgau ac yn yr ardaloedd fel bod y plant yn dod yn gyfarwydd â'r gair sy'n cynrychioli gwahanol offer.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn trafod ymgyrch Cymru yng Nghwpan y Byd drwy ddylunio capiau pêl-droed.

Mae ystod o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, a diwylliannol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad cyfoethog o adnoddau a gweithgareddau i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill a'u traddodiadau. Maent yn dysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a diwrnod y Bwdha.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth werthfawr i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a llyfr 'Fy nhaith ddysgu' sy'n adlewyrchu'r cynnydd maent wedi ei wneud tra'n mynychu'r lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a glân ac yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle.

Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân, y larwm tân ac offer trydanol yn gyfredol. Mae'r arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r trefniadau i'w dilyn pe byddai angen gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu trefniadau glanhau trwyadl sy'n adlewyrchu safonau hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau effeithiol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gofod chwarae dan do a thu allan yn ddi-dor a'r drysau'n agored trwy'r sesiwn. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn llwyddo i symud yn rhydd o un ardal i'r llall yn effeithiol. O ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae yn

ôl eu dymuniad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar drefn y lleoliad ac ar hyder ac annibyniaeth y plant.

Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau ar gael sy’n cyfateb i ddiddordebau’r plant a’u bod yn hylaw i bawb. Er enghraifft, cedwir offer wedi eu labelu’n addas ar lefel isel mewn silffoedd agored. Mae’r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddewis cyfarpar yn annibynnol, sy’n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol.

Trefnir ardaloedd parhaus gydag adnoddau pwrpasol i gyfoethogi profiadau’r plant. Mae'r arweinwyr wedi datblygu'r ardal tu allan ac mae'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r plant ddysgu a chwarae yn yr awyr iach yn ogystal â’r cyfleoedd a geir yn y brif ystafell.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd gwerth chweil sy’n cefnogi datblygiad y plant o ran eu medrau a’u gwybodaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r gwahanol berlysiau sy'n tyfu y tu allan yn annog plant i deimlo ac adnabod gwahanol arogleuon.

Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu eitemau o waith pren a phlastig ac eitemau cartref go iawn sy’n annog y plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae’r plant yn mwynhau chwarae â deunyddiau wedi eu hailgylchu yn yr ardaloedd chwarae rôl. Yn ogystal, mae hyn yn hybu ethos o gynaliadwyedd yn llwyddiannus. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl offer yn addas ar gyfer oedran y plant a bod cyfleusterau pwrpasol i hybu eu datblygiad cyflawn.

Mae’r toiledau a chyfleusterau golchi dwylo yn lân, yn briodol o ran oedran ac yn hawdd mynd atynt. Gall y plant fanteisio ar ddodrefn o faint priodol, fel byrddau a chadeiriau, yn ogystal ag offer sy’n hyrwyddo eu datblygiad corfforol a’u medrau annibyniaeth yn llwyddiannus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a’r ymarferwyr weledigaeth gadarn i ddatblygu annibyniaeth y plant fel eu bod yn datblygu’n ddysgwyr medrus a hyderus. Mae lles yr ymarferwyr a’r plant wrth wraidd holl waith y lleoliad. Mae hyn yn cael effaith rymus iawn ac yn creu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae’r person â gofal yn gosod disgwyliadau uchel trwy fodelu medrus gyda gweddill yr ymarferwyr a’r plant. Mae’r ymarferwyr yn gyfforddus iawn wrth drafod llwyddiannau neu bryderon gyda’r person â gofal. Maent yn gwerthfawrogi ei phrofiad helaeth ac yn teimlo’n hyderus i ofyn barn pan mae angen. Mae hyn yn cael effaith bwerus a chadarnhaol ar y lleoliad.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn i ddiogelu plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd, yn ôl y gofyn. Mae'r broses rheoli perfformiad yn briodol ac yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant gorfodol a dewisol. Caiff arfarniadau addas eu cwblhau’n rheolaidd.

Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn derbyn goruchwyliaethau rheolaidd sy'n cael eu cofnodi.

Mae gan y lleoliad brosesau hunanwerthuso effeithiol. Maent wedi eu seilio ar amrediad da o dystiolaeth ac yn cynnwys gwerthusiad gonest o'r ddarpariaeth a'i heffaith ar gynnydd, medrau a lles y plant. Mae'r blaenoriaethau a adnabyddir yn ystod y broses yn cael eu crynhoi mewn modd hylaw. Mae'r person â gofal yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd i arddangos arwyddion o gynnydd. Nodir camau gweithredu synhwyrol, gan ystyried yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn symud ymlaen. Enghraifft nodedig o effaith y gwaith hwn yw'r modd mae'r lleoliad wedi cyflwyno'r cynllun 'Iaith ar Daith.'

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel dull o rannu gwybodaeth â rhieni. Yn ogystal, mae cyfle i rieni gynnig sylwadau am brofiad eu plant yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau dyddiol a nosweithiau codi arian sy'n sicrhau cyfathrebu effeithlon sy'n llwyddo i gyrraedd holl randdeiliaid y lleoliad.

Mae perthynas agos wedi'i datblygu gyda'r ysgol gynradd gyfagos. Mae gwybodaeth yn cael ei derbyn a'i rhannu rhwng y lleoliad a'r ysgol er mwyn hwyluso'r broses drosglwyddo.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion y mudiadau cefnogol. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn cydweithio ag ystod o bartneriaethau eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant ar agweddau fel hylendid bwyd a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant. Mae hyfforddiant diweddar wedi bod yn fuddiol iawn i'r holl ymarferwyr ac wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol wrth ymateb i agweddau fel Y Cwricwlwm i Gymru.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2023